Wrth i chi nesáu at eich ymddeoliad, mae eich sefyllfa ariannol yn newid. Efallai eich bod chi'n cwtogi'ch oriau gweithio'n raddol, i weithio'n rhan-amser o bosib, ac yn y pen draw bydd y rhan helaeth o bobl yn dymuno rhoi'r gorau i weithio'n llwyr. Felly byddwch angen ffynonellau eraill o incwm i lenwi'r bwlch a adawyd gan eich cyflog neu'ch enillion.

Ar ryw adeg yn eich 60au, bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn dod yn weithredol ac efallai y bydd gennych chi bensiynau eraill hefyd.

Os oes gennych chi'r math o bensiwn lle'r ydych yn cynyddu'ch cronfa gynilion, o fis Ebrill 2015 mae'r cyfyngiadau ar sut y cewch ddefnyddio'r gronfa honno wedi cael eu dileu.

Unwaith y cyrhaeddwch 55 oed, cewch dynnu cyfandaliadau allan neu incwm ohoni fel y mynnwch. Gallwch hyd yn oed dynnu'r cyfan allan fel arian parod - er nid yw hynny'n debygol o fod yn syniad da ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

Bydd y dewisiadau a wnewch yn dibynnu ar eich sefyllfa benodol – faint o incwm ymddeoliad fydd ei angen arnoch, pa ffynonellau eraill o incwm fydd gennych chi, eich iechyd, pa mor fodlon ydych chi wrth gymryd risgiau a faint o dreth a dalwch.

Byddwch angen ychydig o incwm diogel y gallwch ddibynnu arno i dalu'r biliau a phara drwy gydol eich ymddeoliad. Unwaith y bydd hynny yn ei le, gallai'r opsiynau hyblyg newydd fod yn ffordd dda o ymdopi â'r anghenion newidiol drwy gydol eich ymddeoliad.